

Cynllun Iaith Gymraeg Swyddfa'r Cabinet

Paratowyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun yn nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

Mae Swyddfa'r Cabinet wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd Swyddfa'r Cabinet yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn y cynllun hwn, mae'r term 'cyhoeddus' yn golygu unigolion, unigolion cyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu ran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys mudiadau gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd wedi'u cynnwys o fewn ystyr y term 'cyhoedd'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys pobl sy'n gweithredu fel cynrychiolydd y Goron, y llywodraeth neu'r wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw pobl sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus o natur gyhoeddus, er eu bod yn unigolion cyfreithiol, yn cael eu cynnwys o fewn ystyr y gair 'cyhoedd' pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau hynny.

Paratowyd y cynllun yn unol ag Adran 21(3) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 Fe'i cymeradwywyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 12 Ebrill 2019 a chaiff ei adolygu eto o fewn pum mlynedd o gael ei roi ar waith neu erbyn 31 Mawrth 2024, p'un bynnag a ddaw gyntaf.

Adran 1: Cyflwyniad

Pwrpas

1. Swyddfa'r Cabinet yw canolbwynt y Llywodraeth. Ei phwrpas yw:
 - cynnal uniondeb yr Undeb, cydlynu diogelwch y deyrnas a chynnal democratiaeth sy'n ffynnu;
 - cefnogi cynllunio a gweithredu polisiau Llywodraeth Ei Mawrhydi a blaenoriaethau'r Prif Weinidog; a
 - sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus gorau yn cael eu darparu trwy ddenu a datblygu'r gweision cyhoeddus gorau a gwella effeithlonrwydd y Llywodraeth.

Cwmpas y Cynllun hwn

2. Mae Swyddfa'r Cabinet yn gweithio gydag 20 o asiantaethau a chyrff cyhoeddus¹. Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i Swyddfa'r Cabinet ei hun, a'r cyrff cyhoeddus rydym yn gyfrifol amdanynt nad oes ganddynt eu cynllun eu hunain.
3. Mae Swyddfa'r Cabinet yn ymrwymo i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â Deddf yr Iaith Gymraeg. Bydd ein polisiau, ein mentrau a'n gwasanaethau yn gyson â'r cynllun hwn. Pan fyddwn yn cyfrannu at ddatblygu neu gyflwyno polisiau, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd dan arweiniad sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r cynllun hwn.

Goblygiadau ar gyfer Deddfwriaeth a Gwaith Polisi

4. Yn ogystal â rhoi ystyriaeth i faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg wrth lunio polisiau a deddfwriaeth Swyddfa'r Cabinet ei hun, byddwn yn gweithio'n agos gydag adrannau eraill y Llywodraeth i'w cynghori i roi ystyriaeth gynnar i faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, yn unol â'u Cynlluniau Iaith Gymraeg eu hunain.

¹<https://www.gov.uk/government/organisations>

Adran 2: Cyfathrebu â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg

Gohebiaeth Ysgrifenedig

5. Dan yr egwyddor o gydraddoldeb, mae Swyddfa'r Cabinet yn croesawu gohebiaeth yn gyfartal yn Gymraeg ac yn Saesneg. Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg neu'n gofyn am ateb yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg. Bydd yr holl ohebiaeth ddilynol yn Gymraeg, oni bai y bydd yr unigolyn neu'r sefydliad dan sylw yn nodi i'r gwrthwyneb.
6. Bydd Swyddfa'r Cabinet yn ysgrifennu yn Gymraeg:
 - at unigolyn, grŵp neu sefydliad y gwyddom ei fod yn gweithio'n bennaf yn Gymraeg, neu sydd eisoes wedi ein hysbysu ei bod yn well ganddo dderbyn llythyrau yn Gymraeg; ac
 - yn dilyn cyfarfod wyneb yn wyneb neu alwad ffôn yn Gymraeg lle mae angen gohebiaeth ddilynol (oni bai eu bod wedi nodi y byddai'n well ganddynt ymateb yn Saesneg).
7. Bydd Swyddfa'r Cabinet yn ysgrifennu'n ddwyieithog:
 - wrth ddarparu gwahoddiadau a hysbysiadau sy'n rhoi cyhoedduswydd i ddigwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru
 - wrth gynhyrchu papurau ac adroddiadau yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru
 - wrth gynnal arolygon cyhoeddus yng Nghymru.
 - pan anfonir yr un ohebiaeth at nifer fawr o bobl yng Nghymru
8. Bydd ein hamser targed ar gyfer ymateb i ohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg yr un fath ag ar gyfer ateb llythyrau a ysgrifennwyd yn Saesneg.
9. Os bydd rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd. Bydd amgaeadau a anfonir â llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog. Bydd yr holl ohebiaeth Gymraeg ar ffurf copi caled a gyhoeddir gennym yn cael ei llofnodi.
10. Bydd unrhyw wasanaeth cyfieithu ysgrifenedig a ddefnyddir gan Swyddfa'r Cabinet yn darparu gwasanaeth cost-effeithiol o ansawdd uchel. Byddwn yn disgwyl i'r cyfieithwyr hynny fod yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu sefydliad tebyg.
11. Bydd gwahoddiadau a hysbysiadau sy'n rhoi cyhoedduswydd i ddigwyddiad yng Nghymru yn ddwyieithog a byddant yn gwahodd y rhai hynny sy'n dymuno siarad Cymraeg i hysbysu trefnydd y digwyddiad ymlaen llaw fel y gellir trefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd. Byddwn yn darparu papurau a gwybodaeth arall ar gyfer y cyfarfodydd cyhoeddus hyn yn Gymraeg ac yn Saesneg – ac i adroddiadau neu bapurau a gynhyrchir yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus gael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn unol â'r ymrwymadau cyhoeddi yn y cynllun hwn.

Gohebiaeth Eiriol

12. Pan fydd Swyddfa'r Cabinet yn cyfathrebu'n uniongyrchol â'r cyhoedd yng Nghymru (e.e. ynghylch cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru), neu os yw'n sefydlu sianel o gyfathrebu eiriol â'r cyhoedd (e.e. os yw'n sefydlu llinellau cymorth dros y ffôn), byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg lle bo hynny'n bosibl.

Cyfathrebu arall â'r cyhoedd yng Nghymru

13. Pan fydd Swyddfa'r Cabinet yn cynnal arolygon cyhoeddus yng Nghymru, bydd yr holl gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog. Byddwn yn gofyn i ymatebwyr a ydynt am ymateb i'r arolwg yn Gymraeg neu'n Saesneg a byddwn yn hwyluso hynny.
14. Pan fyddwn yn trefnu seminarau, cyrsiau hyfforddi neu ddigwyddiadau tebyg ar gyfer y cyhoedd sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, byddwn yn asesu'r angen i'w darparu yn Gymraeg. Bydd unrhyw arddangosfeydd clyweledol, teithiau sain neu gyfryngau rhyngweithiol rydym yn eu paratoi ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

Adran 3: Wyneb cyhoeddus yr Adran

Dogfennau cyhoeddus

15. Bydd ein holl gyhoeddusurwydd, dogfennau cyhoeddus (gan gynnwys arddangosfeydd, deunydd hysbysebu, ffurflenni, hysbysiadau cyhoeddus, hysbysiadau i'r wasg, ac ati) sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru'n cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, yn ôl system sy'n seiliedig ar bwyntiau.
16. Wrth gyhoeddi dogfennau printiedig yn ddwyieithog, bydd Swyddfa'r Cabinet yn ymdrechu i gael y ddau fersiwn mewn un ddogfen. Fodd bynnag, os (o ystyried hyd y ddogfen) y bydd rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd – a bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd, byddant yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd a byddant yr un mor hygyrch.
17. Os nad yw ar gael yn rhad ac am ddim, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn fwy na phris cyhoeddiad un iaith – a bydd gan fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un pris. Bydd yr hyn a nodir uchod hefyd yn berthnasol i ddeunydd y trefnir ei fod ar gael yn electronig ar ein gwefan.

Gwasanaethau digidol a gwefannau sy'n cael eu gweithredu gan Swyddfa'r Cabinet

18. Mae Swyddfa'r Cabinet yn darparu llawer o blatfformau a gwefannau digidol ar gyfer y llywodraeth gyfan.
19. Mae GOV.UK, a gynhelir gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth (GDS), yn dwyn ynghyd wybodaeth a gwasanaethau gan bob adran o lywodraeth y DU a channoedd o asiantaethau a chyrrff hyd braich. Mae GDS yn gyfrifol am reoli cynnwys digidol traws-lywodraethol [GOV.UK](https://www.gov.uk). Crëwyd GOV.UK i ddiwallu anghenion yr holl ddefnyddwyr, gan gynnwys siaradwyr y Gymraeg. Mae GDS yn blaenoriaethu cyfieithu cynnwys GOV.UK i'r Gymraeg yn seiliedig ar gryfder anghenion defnyddwyr Cymraeg. Mae'r GDS yn darparu cyfieithu cyson o gynnwys Cymraeg lle cwblheir taith lawn o'r dechrau i'r diwedd i'r defnyddiwr yn Gymraeg. Mae taith lawn o'r dechrau i'r diwedd yn cynnwys yr holl gynnwys prif ffrwd ac adrannol sy'n ofynnol er mwyn i daith defnyddiwr fod ar gael yn Gymraeg. Mae GOV.UK yn cefnogi cyhoeddiad fersiynau Cymraeg o unrhyw gyhoeddiad swyddogol, sy'n caniatáu i sefydliadau'r llywodraeth gydymffurfio â'u cynlluniau iaith Gymraeg a / neu safonau'r Gymraeg. Nodir cyfrifoldebau amrywiol Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth a sefydliadau eraill y Llywodraeth isod.
20. Mae GOV.UK yn cefnogi cyhoeddiad fersiynau Cymraeg o unrhyw gyhoeddiad swyddogol, sy'n caniatáu i sefydliadau'r llywodraeth gydymffurfio â'u cynlluniau iaith Gymraeg a / neu safonau'r Gymraeg. Nodir cyfrifoldebau amrywiol Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth a sefydliadau eraill y Llywodraeth isod.
21. Cyhoeddir cynnwys adrannol Swyddfa'r Cabinet ar GOV.UK yn Gymraeg yn unol â'r system sgorio, fel y'i cymeradwywyd gan y Comisiynydd.

Cyfrifoldebau iaith Gymraeg GDS

22. Mae GDS yn gyfrifol am:
 - ddeall rhwymedigaeth statudol y llywodraeth i gefnogi'r iaith Gymraeg, drwy weithio gyda Swyddfa Cymru, Swyddfa'r Cabinet ac arbenigwyr y Gymraeg mewn adrannau ac asiantaethau;

- deall angen defnyddwyr am gynnwys Cymraeg a sicrhau bod GOV.UK yn ymateb i'r angen hwnnw; a
- datblygu a chynnal ymagwedd gyson tuag at gyfieithu cynnwys Cymraeg ar GOV.UK.

23. Mae GDS yn caniatáu i sefydliadau ac asiantaethau eraill gyhoeddi cynnwys Cymraeg ar eu tudalennau unigol ar GOV.UK, ac yn eu cefnogi

Cyfrifoldebau iaith Gymraeg Sefydliadau'r Llywodraeth

24. Mae sefydliadau'r Llywodraeth yn gyfrifol am y cynnwys a ddarperir ar eu tudalennau unigol ar GOV.UK. Mae sefydliadau'r Llywodraeth yn gyfrifol am:

- penderfynu pa adrannau a chynnwys polisi ar GOV.UK sydd angen eu cyfieithu
- trefnu cyfieithu o safon
- cadw cynnwys Cymraeg yn gywir ac yn gyfredol

25. Wrth gyhoeddi ar GOV.UK, dylai sefydliadau'r Llywodraeth gyhoeddi cynnwys yn unol â'u cynllun iaith Gymraeg unigol a / neu ofynion safonau'r Gymraeg.

Hunaniaeth gorfforaethol

26. Cynhyrchir llythyrau â phennawd Cymraeg ar gyfer gohebiaeth yn Gymraeg. Pan fydd dogfennau'n cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog neu yn Gymraeg, byddwn yn arddangos ein hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog h.y. *Swyddfa'r Cabinet/Cabinet Office*.

Recriwtio staff

27. Bydd hysbysiadau recriwtio staff a osodir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfryngau tebyg) a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau mewn cyhoeddiadau Cymraeg yn Gymraeg. Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd – waeth y cânt eu cynhyrchu fel fersiwn dwyieithog unigol, neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

28. Bydd hysbysiadau recriwtio a osodir ar blatfformau Saesneg, megis drwy wefan Swyddi'r Gwasanaeth Sifil, yn Saesneg yn unig, oni bai fod y swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, ac os felly bydd yr hysbysiad naill ai'n gwbl ddwyieithog neu'n Gymraeg ag esboniad cryno yn Saesneg.

29. Ar gyfer unrhyw swyddi sydd â chyswllt helaeth a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn ystyried a ddylai'r Gymraeg fod yn sgil dymunol neu hanfodol - a bydd hyn yn cael ei nodi mewn cymwyseddau a hysbysebion swyddi.

30. Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff a osodir mewn manau eraill yng Nghymru yn ddwyieithog.

Adran 4: Ymrwymiad Swyddfa'r Cabinet i'r Cynllun hwn

Cymeradwyaeth Swyddfa'r Cabinet

31. Mae Swyddfa'r Cabinet yn ymrwymedig i weithredu'r cynllun, a gyhoeddwyd â chefnogaeth Gweinidogion Swyddfa'r Cabinet. Nodir y cerrig milltir allweddol ar gyfer ei weithredu yn yr Atodiad.

Ymwybyddiaeth o'r cynllun

32. Tynnir sylw'r holl staff at y cynllun hwn, a rhoddir arweiniad iddynt ar ei oblygiadau ar gyfer eu gwaith a'r camau mae angen iddynt eu cymryd. Gwneir hyn:
- Drwy sicrhau bod copi o'r Cynllun ar gael i'r holl staff
 - Trwy gyhoeddi cyfarwyddyd i, a gwneud staff yn ymwybodol o, ofynion yr iaith Gymraeg o ran:
 - Ymdrin â gohebiaeth yn y Gymraeg
 - Pryd y dylid ystyried cyhoeddi dogfennau, cyhoeddiadau a deunydd cyhoeddusrwydd dwyieithog neu Gymraeg a Saesneg ar wahân.
 - Goblygiadau'r Cynllun i'r rhai hynny sy'n caffael gwasanaethau gan drydydd partïon
 - Trwy sicrhau bod trydydd partïon sy'n darparu gwasanaethau ar ran Swyddfa'r Cabinet yn ymwybodol o'r cynllun, a'u bod yn derbyn copi o'r cynllun, a chyfarwyddyd perthnasol yn ôl yr angen.
33. Bydd rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.
34. Bydd Swyddfa'r Cabinet hefyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun trwy ei gyhoeddi ar y fewnwyd, ar gyfer aelodau staff, ac ar gyfer y cyhoedd, trwy ei gyhoeddi mewn lle hygyrch ar adran Swyddfa'r Cabinet ar gov.uk.

Hyfforddiant iaith i staff

35. Byddwn yn cynnig cefnogaeth a hyfforddiant i staff sydd, fel rhan o'u dyletswyddau, â chyswllt helaeth a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru yn benodol.

Adolygu a diwygio'r cynllun

36. Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pum mlynedd ar ôl iddo ddod i rym neu erbyn 31 Mawrth 2024, p'un bynnag a ddaw'n gyntaf.
37. Gellir adolygu neu ddiwygio'r cynllun hwn ar unrhyw adeg oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau, neu i'r amgylchiadau lle rydym yn ymgymryd â'r swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall. Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg.

Monitro

38. Bydd Swyddfa'r Cabinet yn mesur ac yn adrodd am berfformiad y cynllun, a bydd yn adolygu'r targedau hyn yn flynyddol.

Cysylltu â Swyddfa'r Cabinet ynglŷn â'r Cynllun

39. Bydd Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg yn Swyddfa'r Cabinet yn gyfrifol am gydlynu a monitro'r cynllun hwn yn gyffredinol. Bydd Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg yn adrodd wrth Brif Swyddog Gweithredu Swyddfa'r Cabinet. Dylid cyfeirio ymholiadau cyffredinol ynglŷn â'r cynllun, cwynion neu awgrymiadau ar gyfer gwelliant at yr aelod o staff yn y swydd hon.
40. Byddwn yn cydweithio â'r Comisiynydd er mwyn datrys unrhyw gwynion – ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gynhelir o dan Adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg.